CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod:	**6 Rhagfyr 2022**
Teitl:	**Adolygiad canol blwyddyn o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23**
Pwrpas yr adroddiad:	**Adrodd ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23**
Er:	**GWYBODAETH**
Aelod Cabinet: **Portffolio Cabinet:**	**Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyllid a Chaffael**

1. CYFLWYNIAD

Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â Chod Ymarfer diwygiedig Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus (y cod). Mae'n un o ofynion y cod i adrodd i'r Cabinet ar weithgarwch disgwyliedig y trysorlys ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, adolygiad canol blwyddyn a pherfformiad gweithgareddau'r Cyngor o ran rheoli'r trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae CIPFA yn diffinio rheoli'r trysorlys fel a ganlyn:

> *"Rheoli buddsoddiadau'r awdurdod a'i lif arian, ei drefniadau bancio, ei drafodion ar y marchnadoedd arian a'r marchnadoedd cyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny a cheisio'r perfformiad gorau yn unol â'r risgiau hynny."*

2. SEFYLLFA'R PORTFFOLIO

Isod, mae crynodeb o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion a buddsoddiadau, gyda manylion pellach yn cael eu dadansoddi yn Atodiad A (Buddsoddiadau) ac Atodiad B (Dyledion).

	Ar 30/09/2022 £m	**Ar 31/03/2022 £m**
Benthyca Allanol		
Benthyciadau'r Bwrdd	101.7	108.9
Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus		
Benthyciad marchnad	5.8	5.8
Cyllid benthyciad ad-daladwy Llywodraeth Cymru	0.9	0.9

Cyfanswm y Ddyled	**108.4**	**115.6**
Buddsoddiadau a ddelir		
Yn fewnol	42.2	55.5
Cyfanswm y Buddsoddiadau	**42.2**	**55.5**
Dyled Net	**66.2**	**60.1**

3. DIWEDDARIAD ECONOMAIDD

Fel y gwyddys, mae gwybodaeth a data ynghylch y sefyllfa economaidd wedi bod yn newid yn gyflym yn ystod 2022. Ysgrifennwyd y diweddariad isod ar ddiwedd mis Medi 2022.

- Yn ystod ail chwarter 2022/23 gwelwyd y canlynol:
  - Bu cynnydd yn y Cynnyrch Domestig Gros yn ystod Chwarter 1 2022/23 i +0.2% chwarter ar chwarter o -0.1%, sy'n golygu bod economi'r DU wedi osgoi dirwasgiad ar ddiwedd mis Medi.
  - Roedd arwyddion bod gweithgarwch economaidd yn colli momentwm wrth i gynhyrchiant gwympo yn sgil y cynnydd mewn costau ynni.
  - Arafodd y chwyddiant o ran Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ychydig i 9.9% flwyddyn ar flwyddyn ym mis Awst ar ôl bod yn 10.1% ym mis Gorffennaf, ond nid oes arwyddion y bydd y pwysau o ran prisiau domestig yn gostwng yn y dyfodol agos.
  - Cwympodd y raddfa diweithdra i 3.6%, sef y lefel isaf ers 48 mlynedd, a hynny oherwydd diffyg mawr yn y cyflenwad llafur.
  - Cododd Cyfradd y Banc dros 100 pwynt sylfaen yn ystod y chwarter, sy'n golygu bod Cyfradd y Banc yn 2.25% (mae hyn wedi cynyddu yn ystod chwarter 3) a disgwylir cynnydd pellach.
  - Chwyddodd y llogau gilt a chwympodd y sterling yn dilyn y "gyllideb fechan" a gyhoeddwyd ar 23 Medi.

- Mae arwyddion yn dangos bod prisiau ynni uwch yn arwain at lai o weithgarwch economaidd. Gan fod y chwyddiant uwch wedi bod yn fwy o fwrn ar weithgarwch real yn y misoedd diwethaf, mae peryg y bydd y Cynnyrch Domestig Gros yn crebachu yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf.

- Mae'r farchnad lafur wedi parhau'n eithriadol o dynn. Darparodd y data ar gyfer mis Awst a mis Medi dystiolaeth bellach fod yr economi wannach yn arwain at leihau'r galw am lafur.

- Cynyddodd chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 9.9% ym mis Awst i 10.1% ym mis Medi, er nid yw'r chwyddiant wedi cyrraedd ei anterth eto. Fodd bynnag, mae disgwyl i'r chwyddiant mewn prisiau cyfleustodau ychwanegu 0.7% at y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Hydref pan fydd cap Ofgem ar bris fesul uned yn cynyddu i £2,500 fesul aelwyd, ar gyfartaledd.

- Erbyn hyn mae'r Pwyllgor Polisi Ariannol wedi cynyddu cyfraddau llog chwe gwaith (hyd at fis Medi) yn yr un faint o gyfarfodydd yn 2022 ac mae'r Pwyllgor wedi codi cyfraddau i'r lefel uchaf ers yr Argyfwng Ariannol Byd Eang. Mae statws y DU fel un sy'n mewnforio llawer o nwyddau, sydd wedi cynyddu mewn pris, yn golygu bod aelwydydd yn y DU yn wynebu pwysau mawr ar eu hincwm real.

- Yn dilyn dechrau sigledig i'r flwyddyn, dringodd yr S&P 500 a'r FTSE 100 yn ystod hanner cyntaf Chwarter 2 2022/23 cyn disgyn i'w lefelau isaf ers mis Tachwedd 2020 a mis Gorffennaf 2021, yn y drefn honno. Mae'r S&P 500 wedi gostwng 7.2% ar ddiwedd mis Medi o gymharu â'i lefel ar ddechrau mis Gorffennaf, tra bod y FTSE 100 wedi gostwng 5.2% yn yr un cyfnod gan fod y gwymp yn y bunt wedi rhoi hwb i werth enillion tramor yn y mynegai. Yn rhannol, cafodd y dirywiad ei yrru gan y cynnydd mewn llogau real yn fyd eang a'r pwysau ar brisiadau ecwiti yn sgil hynny, ynghyd â phryderon ynghylch twf economaidd sydd wedi arwain at lai o awydd ymhlith buddsoddwyr i gymryd risgiau.

- Yng nghyfarfod y Banc ym mis Tachwedd, codwyd Cyfradd y Banc eto i 3.0%.

4. Y STRATEGAETH AR GYFER 2022/23

Cymeradwywyd strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer y flwyddyn gyfredol gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2022. Yn Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor amlinellwyd mai blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yw sicrhau diogelwch o ran cyfalaf a hylifedd. Y nod yw sicrhau'r elw gorau ar y buddsoddiadau a hynny'n gydnaws â'r lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd. Yn gyffredinol, rhagwelwyd y byddai'r buddsoddiadau o ran gofynion llif arian craidd am gyfnodau hyd at 3 mis, ond byddai cyfle i fuddsoddi am gyfnodau hwy (hyd at flwyddyn) pe byddai balansau dros ben ar gael ar gyfer buddsoddi. Hyd yma, mae'r holl fuddsoddiadau eleni wedi bod yn unol â'r strategaeth.

O ran benthyca, mae gan y Cyngor falans eithaf sylweddol ac mae'n parhau i gynnal ei fenthyciadau mewnol sy'n helpu i sicrhau arbedion refeniw.

5. PORTFFOLIO BUDDSODDI

Yn atodiad A ceir rhestr lawn o'r buddsoddiadau a ddelir ar 30/09/2022. Mae mwyafrif y buddsoddiadau yn rhai tymor byr, gan sicrhau bod y dyddiadau allweddol sy'n ymwneud â chyflogau, budd-dal tai a rhediadau taliadau credydwyr yn cael eu cwmpasu o fewn mis. Pan fo arian yn caniatáu, ychwanegir buddsoddiadau aeddfedu sydd â dyddiadau hwy er mwyn manteisio ar enillion uwch.

6. PORTFFOLIO BENTHYCA

Yn ystod 2022/23 hyd yn hyn, ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC). Mae un benthyciad BBGC wedi aeddfedu hyd yn hyn eleni ac ni ddisgwylir rhagor yn ystod y flwyddyn.

Benthyciadau sydd wedi aeddfedu	
Benthyciad aeddfedu (Aeddfedodd ar 30/09/2022)	£6.7m

Mae rhestr lawn o'r benthyciadau a ddelir ar 30/09/2022 yn Atodiad B.

7. AILDREFNU DYLEDION

Wrth i'r economi barhau i symud tuag at y cyfraddau llog uwch, efallai y bydd cyfleoedd ar gael i aildrefnu dyledion – cyfleoedd sydd heb fod ar gael ers dros ddegawd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn gwerthuso'r cyfleoedd fydd ar gael os bydd y balansau'n caniatáu hynny.

Nid oes unrhyw ad-daliad cynamserol o ddyled, nac aildrefnu dyledion, wedi digwydd hyd yn hyn yn y flwyddyn ariannol hon.

8. CYDYMFFURFIO Â THERFYNAU'R TRYSORLYS

Yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn terfynau'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus a nodwyd yn adroddiad Strategaeth Rheoli Trysorlys cymeradwy'r Cyngor am y flwyddyn.

9. YMGYNGHORWYR Y TRYSORLYS

Mae'r Cyngor yn cyflogi Link Treasury Solutions Ltd fel ymgynghorydd allanol i'r Cyngor parthed y Trysorlys ar gontract sy'n rhedeg tan 30/08/2026. Mae Link yn cynorthwyo drwy ddarparu dadansoddiad o deilyngdod credyd y parti arall mewn buddsoddiad, mae'n darparu rhagolygon o ran symudiadau cyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, mae'n cynnal adolygiadau o fantolenni, mae'n darparu gwybodaeth yn rheolaidd am y newidiadau diweddaraf o ran yr economi a gwleidyddiaeth ynghyd â darparu cyngor ynghylch unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu safonau cyfrifyddu.

10. CONTRACT BANCIO

Mae gan y Cyngor gontract gyda Barclays ar gyfer darparu gwasanaethau bancio, sy'n parhau tan 29/02/2024. Mae Barclays yn fanc sydd wedi'i leoli yn y DU, mae ganddo statws credyd A1 (Moody's) hirdymor ac mae'n parhau i ddarparu gwasanaeth gwych i'r Cyngor, yn enwedig yn ystod y pandemig COVID-19. Mae Barclays wedi gweithredu gydag arbenigedd yn y sector llywodraeth leol ers dros 15 mlynedd ac ar hyn o bryd mae'n darparu gwasanaethau bancio trafodol i ychydig dan 25% o'r holl awdurdodau lleol ac mae'n dal perthynas trysorlys gyda bron i 70% yn y DU.

Mae'r nifer sy'n darparu gwasanaethau bancio i'r sector llywodraeth leol yn gyfyngedig iawn a dylid nodi mai Barclays oedd yr unig fanc a fynegodd ddiddordeb ym musnes y Cyngor y tro diwethaf y cafodd y contract ei gaffael. Mae hyder mawr yn y mesurau sydd gan Barclays i wrthsefyll twyll, sy'n ystyriaeth hanfodol yn yr oes sydd ohoni. Mae Barclays wedi cyflwyno hyfforddiant am ddim o ansawdd uchel i swyddogion y Cyngor i godi ymwybyddiaeth o dwyll seiber. Mae hyn yn enghraifft dda o'r gwasanaethau cymorth ychwanegol a dderbyniwyd o dan y contract hwn. Mae Barclays wedi ymrwymo i fod yn fanc Carbon sero net erbyn 2050, gan wneud pethau fesul cam. Mae hyn yn cynnwys targed ar gyfer 2030 ynghylch allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol.

11. HYFFORDDIANT AR GYFER YR AELODAU

Bu'r Aelodau'n rhan o hyfforddiant ar-lein a gyflwynwyd gan Link ar 8 Tachwedd. Amcanion yr hyfforddiant oedd fel a ganlyn:

- Meithrin gwerthfawrogiad o'r hyn sydd ynghlwm wrth Reoli'r Trysorlys a sut y caiff hyn ei wneud.
- Deall rôl Swyddogion a Chynghorwyr mewn penderfyniadau ynghylch Rheoli'r Trysorlys.
- Deall y risgiau a'r cyfleoedd o ran Rheoli'r Trysorlys a sut y dylid eu rheoli.
- Datblygu'r sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i wneud penderfyniadau ynghylch Rheoli'r Trysorlys.
- Adolygu'r strategaeth integredig bresennol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys (dyledion a buddsoddiadau).
- Meithrin dealltwriaeth o sefyllfa mantolen yr Awdurdod gan gynnwys ei sylfaen o asedau a'i fenthyciadau.
- Meithrin gwerthfawrogiad eang o effaith y pandemig COVID-19 a'r pwysau oherwydd chwyddiant yn dilyn hynny ar y rhagolygon economaidd a'r penderfyniadau a wneir o ran Rheoli'r Trysorlys.

	A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam	Naddo: Adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	***Crynodeb:*** **Hirdymor:** **Integreiddio:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:**	
Argymhelliad / Argymhellion:	**Nodi cynnwys yr adroddiad.**	
Rhesymau dros y penderfyniad:	Nid oes angen gwneud penderfyniad.	

Trosolwg a Chraffu:	Ystyriwyd yn ystod y broses o gymeradwyo'r Strategaeth
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2022/23
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae Rheoli'r Trysorlys yn sail i'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol.
Goblygiadau Ariannol:	Cyllid: Incwm Buddsoddi / Llog allanol wedi'i dalu
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol 2003
Papurau Cefndir:	Yr adroddiad ynghylch Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2022/23 a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn (Mawrth 2022)
Atodiadau:	Atodiad A – Portffolio Buddsoddi Atodiad B – Portffolio Dyledion
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall (Cyllid a Chaffael)
Swyddog Adrodd:	Justin Davies (Rheolwr Corfforaethol – Cyllid Craidd)
Dyddiad:	14/11/2022

Atodiad A

PORTFFOLIO BUDDSODDI AR 30/09/2022:

Manylion	Gwerth	Cyfradd Llog	Buddsoddiad	
	£	%	O	I
Buddsoddiadau Cyfnod Penodol				
DMADF	£2,000,000	1.41%	05/07/2022	07/10/2022
DMADF	£1,500,000	1.62%	26/07/2022	28/10/2022
DMADF	£2,500,000	1.63%	03/08/2022	04/10/2022
DMADF	£1,000,000	1.64%	03/08/2022	10/10/2022
DMADF	£2,000,000	1.65%	03/08/2022	14/10/2022
DMADF	£3,000,000	1.66%	03/08/2022	21/10/2022
DMADF	£1,000,000	1.76%	09/08/2022	28/10/2022
DMADF	£1,500,000	1.78%	10/08/2022	31/10/2022
DMADF	£500,000	1.81%	24/08/2022	11/10/2022
DMADF	£500,000	1.88%	24/08/2022	25/10/2022
DMADF	£1,000,000	1.91%	24/08/2022	31/10/2022
DMADF	£400,000	1.89%	25/08/2022	31/10/2022
DMADF	£2,000,000	2.14%	30/08/2022	30/11/2022
DMADF	£3,000,000	1.93%	01/09/2022	31/10/2022
DMADF	£1,000,000	1.95%	01/09/2022	04/11/2022
DMADF	£300,000	1.97%	01/09/2022	07/11/2022
DMADF	£700,000	1.98%	02/09/2022	07/11/2022
DMADF	£2,000,000	2.09%	05/09/2022	22/11/2022
DMADF	£3,000,000	2.15%	05/09/2022	30/11/2022
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	£2,000,000	2.22%	05/09/2022	09/12/2022
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	£2,000,000	2.31%	15/09/2022	16/12/2022
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	£1,000,000	2.40%	20/09/2022	20/12/2022
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	£1,000,000	2.40%	23/09/2022	23/12/2022
	£34,900,000			
Adneuon yng Nghyfrif Wrth Gefn Barclays				
Banc Barclays	£7,346,179	2.00%	-	-
Adneuon mewn Cyfrif Hysbysiad				
Nat West	£965	0.40%	-	-
Cyfanswm y buddsoddiadau ar 30/09/22	**£42,247,143**			

PORTFFOLIO DYLEDION AR 30/09/2022: Atodiad B

Loan Ref	Repayment Method	Start Date	Maturity Date	Original Interest rate	Balance as at 30/09/22
PWLB Loans					
417195	**A**	24-Dec-71	02-Dec-31	8.000%	18,554
419325	**A**	21-Mar-72	02-Dec-31	7.750%	12,995
427730	**A**	12-Jun-73	02-Jun-33	9.875%	19,667
478179	**M**	26-Sep-96	31-Mar-56	8.125%	5,000,000
478585	**M**	10-Dec-96	30-Sep-56	7.500%	3,000,000
480055	**M**	13-Oct-97	30-Sep-57	6.375%	6,000,000
480689	**M**	27-Mar-98	30-Sep-52	5.875%	2,000,000
481159	**M**	20-Jul-98	31-Mar-53	5.500%	3,500,000
490819	**M**	24-Nov-05	31-Mar-31	4.250%	2,000,000
490981	**M**	11-Jan-06	31-Mar-51	3.900%	2,000,000
491703	**M**	07-Jun-06	30-Sep-41	4.350%	2,700,000
491819	**M**	07-Jul-06	30-Sep-31	4.500%	5,300,000
491837	**M**	12-Jul-06	02-Jun-39	4.450%	2,000,000
492936	**M**	20-Feb-07	06-Aug-32	4.550%	6,000,000
493733	**M**	10-Aug-07	30-Sep-37	4.750%	9,551,120
501411	**A**	10-Jul-12	31-Mar-32	2.860%	1,255,058
501928	**A**	01-Mar-13	31-Mar-29	2.630%	1,337,987
502054	**A**	28-Mar-13	06-Feb-33	2.860%	1,368,530
502477	**A**	13-Aug-13	30-Sep-28	3.110%	1,333,801
502596	**M**	10-Oct-13	09-Oct-36	4.210%	5,000,000
502827	**M**	06-Feb-14	10-Jan-25	3.660%	3,000,000
502828	**M**	06-Feb-14	10-Jan-27	3.840%	2,000,000
502981	**A**	09-Apr-14	31-Mar-34	3.680%	1,521,588
502982	**A**	09-Apr-14	30-Sep-28	3.230%	1,882,583
503489	**M**	25-Nov-14	31-Mar-45	3.670%	5,000,000
503490	**A**	25-Nov-14	31-Mar-44	3.400%	1,153,760
503728	**M**	09-Feb-15	31-Mar-60	2.750%	4,000,000
503729	**M**	09-Feb-15	31-Mar-61	2.750%	4,000,000
504645	**A**	04-Feb-16	30-Sep-45	2.760%	2,183,114
506318	**M**	06-Sep-17	01-Sep-28	1.970%	2,000,000
506319	**M**	06-Sep-17	01-Sep-46	2.560%	6,000,000
507963	**M**	30-Oct-18	31-Mar-34	2.500%	2,000,000
507964	**M**	30-Oct-18	30-Sep-48	2.460%	1,800,000
508214	**M**	13-Dec-18	30-Sep-39	2.520%	2,000,000
509622	**M**	08-Aug-19	30-Sep-58	1.970%	2,000,000
509623	**M**	08-Aug-19	30-Sep-34	1.730%	1,800,000
					101,738,757
Market Loan					
Barclays	**M**	20-Jun-16	13-Sep-66	3.660%	5,750,000
WG Repayable Loan funding					
Housing Improvement & Empty Property Loan 1	**M**	06-Mar-15	31-Mar-30	0.000%	556,075
Housing Improvement & Empty Property Loan 2	**M**	27-Mar-20	31-Mar-35	0.000%	250,000
Housing Improvement & Empty Property Loan 3	**M**	19-Feb-21	31-Mar-27	0.000%	80,000
					886,075
TOTAL					**108,374,832**

Allwedd: A = Annuity (Blwydd-dâl) M = Maturity (Benthyciad sy'n aeddfedu)